**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC(2) 03-03(min)**

# COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Medi 2003 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Bae Caerdydd |

## Yn Bresennol

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru. |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Steve Martin | Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant o fis Hydref 2000 hyd at fis Ebrill 2003. Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Peter Higson | Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Dros-dro Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant |
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifo, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Llew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion. Byddai Mick Bates yn gadael am 11 o'r gloch ac ni fyddai Mark Isherwood yn bresennol yn sesiwn y prynhawn.

**Eitem 2: Cofnodion Cyfarfod 17 Gorffennaf**

**Papur:** AC(2) 02-03(min)

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 3 - ELWa - Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth ac Arloesi a Phrosiectau Datblygu**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steve Martin, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, Peter Higson, Prif Weithredwr Dros-dro Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Syr John Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn cysylltiad â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'ELWa - Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth ac Arloesi a Phrosiectau Datblygu'.

***Cafodd y Pwyllgor egwyl rhwng 11:21 ac 11:33 a daeth y sesiwn i ben am 12:30.***

3.2 Bydd trawsysgrif gair am air o Eitem 3 yn Atodiad 1 o'r cofnodion hyn.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Bydd y Pwyllgor yn derbyn copi o'r llythyr dyddiedig 15 Mawrth 2002 at y Cyngor gan Learn to Live Ltd yn gofyn am ohirio gwariant **- Peter Higson, y Cyngor Cenedlaethol.**
- Bydd y Pwyllgor yn derbyn nodyn ar gyfanswm gwerth y prosiectau lle y cafwyd gwendidau yn adolygiad cynhwysfawr diweddar y Cyngor **- Peter Higson, y Cyngor Cenedlaethol.**

- Bydd y Pwyllgor yn derbyn manylion y gwendidau a gafwyd, y camau sy'n cael eu cymryd i'w cywiro a'r achosion lle y mae’r Cyngor Cenedlaethol yn ystyried bod problemau'n parhau heb eu datrys **- Peter Higson, y Cyngor Cenedlaethol.**

**Eitem 4: Adroddiad i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant- y camau y mae sefydliadau addysg bellach wedi’u cymryd i arbed costau trwy wella arferion caffael**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio clywed tystiolaeth tan ddyddiad arall.

**Eitem 5: Papurau i'w nodi**

**Papurau:**

- AC(2) 03-03(p3) – Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio – ateb i lythyr y Pwyllgor ynghylch ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar gyfrifon Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant hyd at 31 Mawrth 2002.

- AC(2) 03-03(p4) - Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch gallu Gweinidogion i ymateb i gwestiynau sy'n gysylltiedig â materion sy'n destun ymchwiliad ar y pryd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
- AC(2) 03-03(p5) - Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch gohirio ei ymchwiliad gwerth am arian o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref
- AC(2) 03-03(p6) - Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch gohirio ei ymchwiliad gwerth am arian o effeithiolrwydd Cymorth Rhanbarthol Dewisol yng Nghymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar bapurau AC(2) 03-03(p3), AC(2) 03-03(p5) ac AC(2) 03-03(p6).

5.2 O ran AC(2) 03-03(p4), ailadroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru nad oedd protocol ffurfiol a oedd yn rhwystro Gweinidogion rhag ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â materion a oedd yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Tynnodd sylw at yr arferiad, y mae'r Cynulliad wedi ei ddilyn o San Steffan, nad yw Gweinidogion yn trafod adroddiad sydd wedi ei gyhoeddi tan i'r Pwyllgor Archwilio gael y cyfle i'w ystyried a llunio ei adroddiad.

**Eitem 6: Y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn goruchwylio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'u rheolaeth ariannol**

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr John Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a David Richards, Prif Swyddog Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'ELWa- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth ac Arloesi a Phrosiectau Datblygu'.

6.2 Bydd trawsysgrif gair am air o Eitem 3 yn Atodiad 1 o'r cofnodion hyn.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Bydd y Pwyllgor yn cael rhestr o enghreifftiau, yn berthnasol i gyfnod o ddeng mlynedd, o Swyddogion Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus a Noddir yng Nghymru a Lloegr sydd naill ai wedi eu diswyddo neu wedi bod yn destun trefniadau disgyblu **- yr Ysgrifennydd Parhaol.**

- Bydd y Pwyllgor yn derbyn nodyn ar y fframwaith y mae'r Cynulliad yn ei ddefnyddio i hyfforddi ac i rannu gwybodaeth/profiad gyda’r rhai y mae’n eu noddi **- yr Ysgrifennydd Parhaol.**
- Byddai’r Pwyllgor yn derbyn cyngor ynghylch unrhyw ffactorau sy’n gyffredin rhwng y materion a gynhwysir o fewn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a ystyriwyd yn y cyfarfod hwn a’r rhai a bennwyd yn adroddiad cynharach Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Cyfrifon ar gyfer y cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2002 a ystyriwyd yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2003 – **Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

Daeth y cyfarfod i ben am 15:15.